# LLANDEGFEDD

Newsletter | Issue 21 | January 2015

Earning the trust of our customers every day

## Providing our neighbours and leisure users at Llandegfedd...

with an update about your brand new Visitor and Watersports Centre.

The Watersports Centre is on schedule to complete mid February, providing time for the new Welsh Water Watersports team (formerly Gwent Adventures) to prepare the building for business from the 1 April. Our prices were posted on the website in December.

Sailing club members and dingy dry berth holding customers will be admitted to site by arrangement from Sunday 1 March to help them prepare their boats for the new season and for race sailing.

Welsh Water will provide safety board cover on these Sundays. In order to complete the landscaping works, unrestricted access will not be possible until 1 April.

**Boats will need to be trailered away at the end of each session as landscaping works will not be completed within the dinghy park. Berths will be issued formally from 1 April.**

### Angling

The angling season will begin on 1 April and we look forward to welcoming our ever-patient angling customers on their return to Llandegfedd.

The lake will be newly-stocked, and the fishery will be managed to new heights now that we have the right facilities for what is one of Welsh Water's top venues for stillwater fly fishing, competing with Llyn Brenig and Llys y Fran to offer the very best fishing in Wales, and beyond. The new jetties will be in place shortly afterwards, and we expect only a day's interruption to the season if we cannot get them in before 1 April. The Rangers are currently preparing the fleet of 32 boats for the new season and 16 (possibly 32) will have new engines.

### Café – Visitor Centre

We will open the new café and shop on 1 April 2015. Richard Poole is joined by our new catering and retail manager Graeme Millar. Graeme comes with extensive experience of running attractive catering and retail outlets and he is already well underway with creating his vision, not only for the new Llandegfedd café and shop, but also our cafes and shops at Elan Valley, Llyn Brenig and Llys y Fran.

Graeme will have recruited and trained the café and retail team in time to serve the excellent café fare, the menu will shortly be available on our website.

### The Boat Store

The boat store is still planned for the area behind the space occupied by the Sailing Club's old container, but it will not be completed in time for the start of the new season. We will ask the cadets and others who can no longer access their containers to postpone their return to the water until we can allocate them secure storage in the new facility.

The sailing club and other groups will be allocated space in the boat store and within the watersports centre itself over the next few weeks, and meetings are in the diary to agree these details with the sailing club and other groups.

### The Rangers workshop

Like the Boat Store, we will not see this in place for the new season, so our Ranger team will continue to keep a base at the Sluvad Water Treatment works for a little longer. In time, the workshop on the site of the former Sailing Club club house, will become the base for all site maintenance activity.

### External works

Landscaping continues and as ever we are constrained by the fact that the connection of the buildings to a new waste-water treatment works below the dam has always been the last piece in the construction jigsaw, and I apologise for this frustrating delay.

### Footpaths

The new footpaths and walking trails, including the path to the car park at the north end of the reservoir are under construction. Our own staff will be waymarking them in February and March, and then it will be for our partners at Monmouthshire Council to waymark the paths that link to our own as they leave Welsh Water land. Keen walkers should be able to use the new trails from the 1 April.

### Containers

When space has been allocated to watersports groups in the water sports centre or the boat store, we will agree a time period during which we will look to the container owners to decant their possessions into their allotted space.

**As previously communicated all containers will be removed from site at the end of the agreed time period.**

**Questions**

Please continue to email me at **tom.packham@dwrcymru.com** if you have any questions.

**Best wishes**

**Tom Packham**
Dŵr Cymru Welsh Water
Estates Business Manager

# LLANDEGFEDD

Newyddlen | Rhifyn 21 | Ionawr 2015

Yn ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd

## Yn rhannu'r newyddion diweddaraf am eich Canolfan Ymwelwyr a Chwaraeon Dŵr newydd sbon...

â'n cymdogion a'r bobl sy'n mwynhau gweithgareddau hamdden yn Llandegfedd.

Mae'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau ganol Chwefror, a bydd hyn yn rhoi amser i dîm Chwaraeon Dŵr newydd Dŵr Cymru (gynt Anturiaethwyr Gwent) baratoi'r adeilad ar gyfer dechrau'r tymor ar 1 Ebrill. Cyhoeddwyd ein prisiau ar y wefan ym mis Rhagfyr.

Caiff aelodau'r clwb hwylio a chwsmeriaid â mannau storio dingis tir sych ddod i'r safle trwy drefniant o ddydd Sul, 1 Mawrth ymlaen er mwyn eu cynorthwyo i baratoi eu cychod ar gyfer y tymor newydd ac ar gyfer rasys hwylio.

Bydd Dŵr Cymru'n darparu gwasanaeth cwch diogelwch ar y Suliau hyn. Fodd bynnag, am y byddwn ni'n dal i fod wrthi'n cwblhau'r gwaith tirlunio, ni fydd modd caniatáu mynediad digyfyngiad tan 1 Ebrill.

**Bydd angen mynd â'r cychod o'r safle ar ddiwedd pob sesiwn, am na fyddwn wedi cwblhau'r gwaith tirlunio yn y maes dingis. Caiff y mannau storio eu clustnodi'n ffurfiol o 1 Ebrill ymlaen.**

### Pysgota

Bydd y tymor pysgota'n cychwyn ar 1 Ebrill ac rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu ein cwsmeriaid pysgota hynod amyneddgar nôl i Landegfedd.

Byddwn wedi stocio'r llyn o'r newydd, a chaiff y bysgodfa ei rheoli'n well fyth am y bydd gennym ni'r cyfleusterau cywir i reoli un o brif ganolfannau pysgota â phlu Dŵr Cymru. Bydd hyn yn golygu bod yr hyn sydd gennym i'w gynnig ar raddfa debyg i Lyn Brenig a Llys y Frân, ac y gallwn gynnig cyfleusterau pysgota sydd gyda'r gorau yng Nghymru a'r tu hwnt. Bydd y glanfeydd newydd yn eu lle yn fuan wedyn, ac nid ydym yn disgwyl tarfu ar y tymor am fwy na diwrnod os na allwn eu gosod yn eu lle cyn 1 Ebrill.

Mae'r Gofalwyr wrthi'n paratoi'r fflyd o 32 o gychod ar gyfer y tymor newydd a bydd modur newydd yn 16 o'r rhain (neu 32 o bosibl).

### Caffi – Y Ganolfan Ymwelwyr

Byddwn ni'n agor y caffi a'r siop newydd ar 1 Ebrill 2015. Yn ymuno â Richard Poole, bydd ein rheolwr arlwyaeth ac adwerthu newydd, Graeme Millar. Mae gan Graeme brofiad helaeth o gynnal allfeydd arlwyaeth ac adwerthu deniadol ac mae e eisoes wrthi'n brysur wrth greu ei weledigaeth, nid yn unig ar gyfer caffi a siop Llandegfedd, ond hefyd ar gyfer ein caffis a'n siopau yng Nghwm Elan, Llyn Brenig a Llys y Frân.

Bydd Graeme wedi recriwtio a hyfforddi tîm y caffi a'r tîm adwerthu mewn da bryd i ddarparu bwydlen ragorol y caffi a fydd ar gael ar y wefan cyn bo hir.

## Y Storfa Gychod

Rydyn ni'n dal i fwriadu gosod y storfa gychod yng nghyffiniau safle hen flwch storio'r Clwb Hwylio, ond ni fyddwn wedi cwblhau'r gwaith yma mewn pryd ar gyfer y tymor newydd. Byddwn ni'n gofyn i'r cadetiaid a'r lleill sy'n methu â chyrraedd eu storfeydd ohirio dychwelyd i'r dŵr nes y gallwn ddyrannu lle storio newydd ar eu cyfer yn y cyfleuster newydd.

Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn ni'n mynd ati i glustnodi lle ar gyfer y clwb hwylio a'r grwpiau eraill yn y storfa gychod ac yn y ganolfan chwaraeon dŵr ei hun, ac rydyn ni wedi trefnu cyfarfodydd i gytuno ar y manylion gyda'r clwb hwylio a'r lleill.

## Gweithdy'r Gofalwyr

Yn yr un modd â'r Storfa Gychod, ni fydd y lle yma'n barod erbyn y tymor newydd chwaith, felly bydd ein Gofalwyr yn cadw eu canolfan yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Sluvad am y tro. Yn y pen-draw, daw'r gweithdy ar safle hen adeilad y Clwb Hwylio yn ganolfan ar gyfer holl waith cynnal-a-chadw'r safle.

## Gwaith allanol

Mae'r gwaith tirlunio yn parhau, ond mae'r ffaith taw cysylltu'r adeiladau â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff newydd islaw'r argae fydd y darn olaf yn jig-so'r gwaith adeiladu yn dal i gyfyngu ar y gwaith yma, a hoffwn ymddiheuro am yr oedi yn hyn o beth.

## Llwybrau cerdded

Mae gwaith ar droed i greu'r llwybrau cerdded newydd, gan gynnwys y llwybr i'r maes parcio ym mhen gogleddol y gronfa. Bydd ein staff ein hunain yn gosod yr arwyddion ar hyd y llwybrau hyn yn Chwefror a Mawrth, ac wedyn mater i'n partneriaid yng Nghyngor Sir Mynwy fydd gosod arwyddion ar hyd y llwybrau sy'n cysylltu â'n rhai ni wrth iddynt adael tir Dŵr Cymru. Dylai'r llwybrau fod ar gael i gerddwyr eu defnyddio o 1 Ebrill ymlaen.

## Blychau storio

Ar ôl i ni glustnodi lle ar gyfer grwpiau chwaraeon dŵr yn y ganolfan chwaraeon dŵr neu'r storfa gychod, byddwn ni'n cytuno ar amserlen i berchnogion y blychau storio symud eu heiddo i'r lle a glustnodwyd ar eu cyfer.

**Fel y dywedwyd eisoes, caiff yr holl flychau eu symud o'r safle ar ddiwedd y cyfnod hwn.**

### Cwestiynau

Mae croeso o hyd i chi anfon neges e-bost ataf yn **tom.packham@dwrcymru.com** os oes unrhyw gwestiynau gennych.

### Dymuniadau gorau

**Tom Packham**
Rheolwr Busnes Ystadau
Dŵr Cymru Welsh Water